
Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol

Hydref 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddTai**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddTai@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddLlywLTai**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol

Hydref 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddTai**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

---

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **6**

**Cyflwyniad** .......... **8**

Casglu tystiolaeth .......... 8

**Cefndir** .......... **10**

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 .......... 10

Diweddariad ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth .......... 10

**1. Y system bleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol** .......... **14**

Ein barn ni .......... 17

**2. Arolwg a Data Ymgeiswyr Llywodraeth Leol** .......... **19**

Ein barn ni .......... 23

**3. Camau cadarnhaol i gynyddu amrywiaeth** .......... **25**

Cynnydd gan awdurdodau lleol .......... 29

Cyngor Sir Fynwy .......... 30

Cyngor Bro Morgannwg .......... 31

Ein barn ni .......... 32

**4. Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig** .......... **34**

Ehangu'r gronfa .......... 36

Ein barn ni .......... 37

**5. Rhannu swydd** .......... **40**

Ein barn ni .......... 43

**6. Gweithio hybrid** .......... **45**

Ein barn ni .......... 48

**7. Mentora, hyfforddiant a’r cyfryngau cymdeithasol ..................... 50**

Cynlluniau mentora a hyfforddiant ..................................................... 50

Ein barn ni ..................................................................................... 51

Cam-drin ac aflonyddu ar-lein ............................................................ 52

Ein barn ni ..................................................................................... 54

**Rhestr o’r sesiynau tystiolaeth lafar ............................................ 55**

**Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig .............................................. 57**

Gwybodaeth Ychwanegol .................................................................. 57

# Rhagair y Cadeirydd

Mae diffyg cynrychiolaeth ddigonol menywod, pobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl â nodweddion gwarchodedig ym myd gwleidyddiaeth wedi'i nodi ers amser maith fel mater y mae angen mynd i'r afael ag ef, ac eto rydym mewn sefyllfa lle y mae'r cynnydd wedi parhau i fod yn ystyfnig o araf. Er gwaethaf cydnabyddiaeth gyffredinol y dylai pob sefydliad democrataidd adlewyrchu a chynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, prin yw'r rhai sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd.

Yn 2019, gwneuthum gadeirio ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad, fel y'i gelwid ar y pryd, ar y mater hwn ac rwy'n falch o weld bod cynnydd wedi'i wneud wrth weithredu rhai o argymhellion y Pwyllgor hwnnw. Mae'n arbennig o hyfryd gweld datblygu sylweddol ar bresenoldeb o bell i aelodau llywodraeth leol a chreu Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig. Er y cafodd y newid i bresenoldeb o bell ei sbarduno gan yr angen i weithio gartref yn ystod pandemig Covid-19, mae cyfarfodydd hybrid bellach wedi'u gwreiddio'n gadarn fel y norm mewn gweinyddiaeth llywodraeth leol ar draws Cymru. Mae hyn i'w groesawu'n fawr o ystyried y cyfleoedd y mae'n eu cynnig i bobl sydd wedi'i chael yn anodd ymrwymo i gyfarfodydd wyneb yn wyneb o'r blaen.

Rwyf hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithredu Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig sy'n dileu rhai o'r rhwystrau ffisegol sy'n atal pobl anabl rhag rhoi eu henwau gerbron mewn etholiad. Mae'n dda bod y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn cynnwys darpariaeth i osod cronfa o'r fath ar sail statudol.

Er gwaethaf y datblygiadau diweddar hyn, mae momentwm parhaus tuag at gynyddu amrywiaeth ym maes llywodraeth leol yn parhau i fod yn bryder. Mae ymrwymo yn gofyn am arweinyddiaeth gref, ac mae'r cynnydd a wnaed gan rai awdurdodau lleol yn galonogol ac yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni. Mae'n bwysig cydnabod lle y mae cynnydd wedi'i wneud, nodi arfer da a hwyluso ffyrdd o rannu hynny â chymheiriaid ar draws Cymru. Felly, mae llawer o'n hargymhellion yn galw am nodi a rhannu arfer da gan bartneriaid llywodraeth leol.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r ymchwiliad hwn.

**John Griffiths AS**

Cadeirydd, Y Pwyllgor Tai a Llywodraeth Leol

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gydag CLlLC i wella'r gyfradd ymateb i'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r arolwg ymhlith ymgeiswyr a chynghorwyr, a rhannu arfer gorau rhwng awdurdodau lleol. ........ Tudalen 24

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, i nodi meysydd o arfer da i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol ac i rannu'r profiadau hynny a dysgu ohonynt. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag CLlLC i asesu effeithiolrwydd yr holl fentrau i gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol, gan gynnwys gweithredu Datganiadau Amrywiaeth a'u heffaith. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu a gwerthuso effaith dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i hyrwyddo cyfranogiad democrataidd. Mae hyn yn cynnwys mesur effaith strategaethau cyfranogiad cyhoeddus awdurdodau lleol a rhannu arfer da. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i ganfod cyfleoedd i hyrwyddo ymhellach y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig a buddion y gronfa. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o werthuso'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn cael eu hystyried ymhellach, gan sicrhau bod cymorth amserol a digonol i ymgeiswyr anabl cyn etholiadau llywodraeth leol y dyfodol. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid ehangu neu ddatblygu mentrau megis y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, er mwyn cefnogi ymgeiswyr o grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu ni waeth a fydd y darpariaethau yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn dod yn gyfraith ai peidio. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â phartneriaid llywodraeth leol, gydweithio i godi ymwybyddiaeth o rannu swydd a'i hyrwyddo ar gyfer rolau gweithredol ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso mwy o rannu profiadau awdurdodau lleol mewn cysylltiad â rhannu swydd mewn rolau gweithredol er mwyn deall y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth. Dylai hefyd sicrhau bod data rhannu swydd yn cael eu casglu'n well er mwyn gallu monitro effaith rhannu swydd yn rheolaidd wrth gyfrannu at wella amrywiaeth ar draws awdurdodau. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r sector cynghorau tref a chymuned i sicrhau bod cymorth, hyfforddiant ac adnoddau digonol ar gael i alluogi defnyddio technoleg cyfarfod aml-leoliad ym mhob cyngor cymuned yng Nghymru. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn sgil cau Chwarae Teg, asesu'r capasiti ledled Cymru i gyflwyno cynlluniau mentora a chanfod yn gyflym sut y gellir llenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar ganlyniad ei gwaith i ddwyn partneriaid allweddol ynghyd i frwydro yn erbyn camdriniaeth mewn gwleidyddiaeth. ........ Tudalen 54

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gymryd camau pendant a chadarn i fynd i'r afael â cham-drin ar y cyfryngau cymdeithasol. ........ Tudalen 54

# Cyflwyniad

**1.** Ar hyn o bryd, mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a gynrychiolir gan 1,233 o gynghorwyr. Yn yr etholiad diwethaf yn 2022, roedd 72 o seddau'n ddiymgeisydd. Cafodd data o arolwg ar ymgeiswyr a safodd etholiad ym mis Mai 2022 eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2023.

**2.** Yn ystod 2018-19, cynhaliodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol.

**3.** Gwnaeth y Pwyllgor 22 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys hyrwyddo cyfleoedd rhannu swyddi rhwng aelodau gweithredol cyngor a sefydlu Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig i gynorthwyo unigolion anabl i ymgeisio am swyddi etholedig.

**4.** Yn ein cyfarfod ar 29 Mawrth 2023, cytunwyd i asesu cynnydd ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Gwnaethom gytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

- Asesu cynnydd tuag at wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol ers pasio Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac unrhyw effaith bendant ar ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad.
- Ystyried y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion yn adroddiad 2019 y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol.
- Ymchwilio i waith ymchwil a dadansoddi a gaiff ei wneud gan Lywodraeth Cymru, cyrff partner ac eraill ar amrywiaeth ymgeiswyr a chanlyniadau yn dilyn etholiadau lleol 2022.
- Archwilio cynlluniau a sefydlwyd i hyrwyddo a galluogi mwy o amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n sefyll mewn etholiad, gan gynnwys y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig.
- Ymchwilio i feysydd arloesedd ac arfer da a allai helpu i gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol.

## Casglu tystiolaeth

**5.** Gwnaethom gasglu tystiolaeth ysgrifenedig a chynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 31 Mawrth a daeth i ben ar 2 Mehefin 2023. Cawsom 12 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

**6.** Clywsom dystiolaeth lafar gan randdeiliaid ar 15 Gorffennaf a chan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ("y Gweinidog"), ar 13 Gorffennaf.

**7.** At hynny, gwnaethom gynnal dau grŵp ffocws ar-lein ddydd Iau, 11 Mai i glywed yn uniongyrchol gan gynghorwyr etholedig. Clywsom gan un ar ddeg o gynghorwyr o awdurdodau lleol amrywiol. Roedd ymlyniad gwleidyddol y cyfranwyr hefyd yn amrywiol. Ceir crynodeb o'n gwaith ymgysylltu ar ein gwefan.

**8.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad. Mae'r manylion am yr holl dystiolaeth a gasglwyd ar gael yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

# Cefndir

**9.** Ers i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gyhoeddi ei adroddiad, bu nifer o fentrau i annog pobl o ystod ehangach o gefndiroedd gymryd rhan mewn democratiaeth leol.

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**10.** Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 "Deddf 2021" ei phasio gan y Senedd ar 18 Tachwedd 2020. Diben datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Ddeddf oedd:

- darparu ffyrdd newydd i lywodraeth leol gefnogi a gwasanaethu eu cymunedau;
- adfywio democratiaeth leol yng Nghymru.

**11.** Mae'r darpariaethau yn Neddf 2021 yn cynnwys:

- Galluogi awdurdodau lleol i newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy;
- Galluogi cyfarfodydd aml-leoliad;
- Galluogi penodi cynorthwywyr gweithrediaeth;
- Galluogi rhannu swyddi ar gyfer arweinwyr gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth ac ar gyfer rolau nad ydynt yn rolau gweithrediaeth megis cadeirydd neu is-gadeirydd;
- Gosod dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol i sicrhau safonau ymddygiad.

## Diweddariad ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth

**12.** Ym mis Gorffennaf 2022, darparodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddiweddariad ar gam dau o'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Lansiwyd y rhaglen yn gyntaf yn 2014 a cheisiodd gynyddu nifer yr ymgeiswyr llywodraeth leol o gefndiroedd amrywiol drwy fentora ac ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol. Nododd y Gweinidog ei bod yn gobeithio y gallant, mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol, adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni drwy:

- ymchwilio i sut rydym yn ymestyn y darpariaethau ar gyfer rhannu swydd i rolau anweithredol megis cadeiryddion y pwyllgorau;
- ystyried pa fesurau pellach y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi pobl o'r ystod o grwpiau gwarchodedig i oresgyn rhwystrau i gyfranogi, ac yn bwysig, sut y caiff croestoriadedd ei gydnabod o fewn unrhyw drefniadau yn y dyfodol;
- ymchwilio i farn pleidleiswyr a rhandeiliaid ynghylch dulliau eraill a allai wella amrywiaeth ymhlith ein haelodau etholedig lleol ymhellach.

**13.** Er mwyn llywio ei rhaglen waith, comisiynodd y Gweinidog sawl darn o ymchwil i rôl cynghorwyr, eu tâl, eu hyfforddiant a'u datblygiad, eu llwyth gwaith, ac agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd. Ymhlith ei chyhoeddiadau diweddaraf y mae ei hymchwil ar *chwalu'r rhwystrau i swyddi etholedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig: damcaniaeth newid* a'i harolwg Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltiad dinasyddion. Asesiad cyffredinol o'r cynnydd.

**14.** Clywsom dystiolaeth bod cynnydd o ran cynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ac aelodau llywodraeth leol etholedig yn gymysg. Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw mai dim ond pedwar o'r 22 awdurdod lleol oedd wedi penodi arweinyddion benywaidd, ac mai dim ond dau awdurdod oedd yn gytbwys o ran rhyw. Dywedodd y Cynghorydd Lis Burnett y canlynol wrthym:

> *"It's not accepted that there is an expectation of diversity in representation, and I think there's still a way to go."*[1]

**15.** Fodd bynnag, nododd CLlLC hefyd y gellid dadlau bod mwy o gynnydd wedi'i wneud o ran gwella amrywiaeth rhyw, ond ei bod yn anoddach asesu amrywiaeth ar draws nodweddion gwarchodedig eraill:

> *"the evidence base is quite low, and we are reliant on a lot of anecdotal evidence and experiences, which could be improved."*[2]

**16.** Dywedodd Un Llais Cymru mai effaith fach iawn sydd wedi bod ar amrywiaeth ar draws y sector cynghorau tref a chymuned, gan ychwanegu'r canlynol:

[1] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 5
[2] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 9

> *"anecdotally, we have seen more women in councils throughout Wales. But on the impact on numbers from ethnic minority backgrounds, I think there's been little, if any, impact whatsoever."*[3]

**17.** Dywedodd ERS Cymru wrthym o'i data, y cofnododd gafeat mawr yn eu cylch, fod nifer y cynghorwyr benywaidd wedi cynyddu o 28 y cant yn 2017 i 36 y cant yn 2022. Dywedodd ERS Cymru fod cyfradd y cynnydd yn araf iawn.[4]

**18.** Dywedodd Race Council Cymru fod y ffigyrau'n waeth fyth i aelodau o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Ychwanegodd Race Council Cymru y canlynol:

> *"I do think that the feeling, overall, from our grass-roots communities—and we surveyed over 300 ethnic minority grass-roots people, and many of them, I would say 94 per cent of them, reported not getting through upon showing an interest, getting involved in meetings, just feeling like they were being tick-boxed. So, there is huge work to do to improve diversity in our councils."*[5]

**19.** Er bod y rhan fwyaf o'r rhai a gyfrannodd yn ein sesiynau grwpiau ffocws yn cydnabod bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol dros y blynyddoedd diwethaf, nid oedd nifer o gyfranwyr yn teimlo bod cyfansoddiad cynghorwyr yn eu hawdurdod lleol yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu:

> *"Nid yw cael cydbwysedd rhwng y rhywiau yn unig yn ddigon . . mae angen amrywiaeth o brofiadau byw arnom. Nid oes gennym unrhyw bobl Ddu, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig ar ein cyngor sir. Ychydig iawn o gynghorwyr anabl agored sydd gennym a dim ond un cynghorydd LHDT agored. Rwy'n meddwl bod hynny'n wael iawn ac rwyf am weld ni'n gwneud llawer iawn gwell . . . Mae angen i ni wneud llawer mwy o waith i ddangos bod yr holl wahanol bobl hyn o wahanol nodweddion gwarchodedig yn perthyn i'r siambr."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy.*

[3] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 7
[4] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 131
[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 269

*"mae'n holl bwysig bo ni fel cyngor, fel Cyngor Sir Gar, neu pob cyngor sydd gyda ni yng Nghymru yn adlewychu'r pobl sydd gyda ni yn y gymuned a fi yn teimlo yn y sir, da ni ddim fel cyngor yn adlewychu ein cymuned yn iawn . . . Does gyda ni ddim un person o liw yn ein cyngor. [ ] Bach iawn o bobl ifanc sydd gyda ni a ma' hwnna'n rhywbeth fi'n credu ma' ishe i ni drafod achos da ni ddim yn tynnu ein pobl ifanc mewn i wleidyddiaeth. Yn bendant ddim i'r cyngor sir, a does neb gyda ni ar y cyngor sir sydd yn anabl."*

*Grŵp ffocws 2, Sir Gaerfyrddin.*

**20.** Clywsom gan y Gweinidog y bu llawer o gynnydd yn y blynyddoedd diwethaf, gan nodi'r rhaglen amrywiaeth mewn democratiaeth a'r newidiadau sylweddol drwy Ddeddf 2021. Gwnaeth y Gweinidog y sylw a ganlyn:

*"all of those things are very much working together to open up democracy to people."6*

**21.** Fodd bynnag, cydnabu'r Gweinidog hefyd fod angen gwneud rhagor o gynnydd:

*"That's not to say there's not an awful lot more that we need to be doing as well, both as Government, but then I think there are roles for political parties and for wider partners as well.*

*So, we've made great strides. We've been the first in the UK to do lots of these things; I know there are lots of calls across the border in England now to take the approach that we have to hybrid meetings, for example. So, we are showing what can be done, but I'm absolutely not complacent, and there's definitely more to do."7*

[6] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 12
[7] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraffau 12-13

# 1. Y system bleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol

Rhoddodd Deddf 2021 y pŵer i gynghorau yng Nghymru ddewis rhwng dwy system bleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol - Y Cyntaf i'r Felin neu'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Yn flaenorol, Y Cyntaf i'r Felin oedd yr unig opsiwn.

**22.** Dywedodd ERS Cymru, eiriolwr cryf dros y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, ei bod yn system etholiadol decach a mwy cynrychioladol. Er ei bod yn croesawu'r cyfle i gynghorau ddewis yr opsiwn hwn, datganodd y canlynol:

> *"the change in electoral system should have been applied across the board and not on a voluntary basis."*

**23.** Yn ôl ERS Cymru, mae data o etholiadau llywodraeth leol 2022 yn dangos y canlynol:

> *"the current First Past The Post voting system perpetuates a lack of diversity in local government through the dominance of single member wards and continued high levels of uncontested seats."*[8]

**24.** Dywedodd ERS Cymru y canlynol wrthym:

> *"There were 74 uncontested seats in Wales in 2022, so that's 6 per cent of the total elected councillors; 97 per cent of these were in single-member wards. So, there's a real, heavy bias towards single-member wards there. There were no uncontested seats, in contrast, in wards with three members or higher. So, if you're looking at bigger wards, you're much, much less likely to have uncontested seats."*[9]

[8] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 03 ERS Cymru
[9] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 136

**25.** Cytunodd Dr Stefanie Reher, Prifysgol Ystrad Clud, fod dosbarthiadau aml-Aelod yn tueddu i gynyddu amrywiaeth[10], gan ychwanegu'r canlynol:

> *"systems like STV… are generally thought to also be beneficial for under-represented groups, because they incentivise parties to present or nominate more of a range of different candidates that can appeal to different groups of voters."*[11]

**26.** Cydnabu rhanddeiliaid na fyddai'r newid i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, ynddo'i hun, o reidrwydd yn arwain at fwy o amrywiaeth o aelodau. Fodd bynnag, gallai cyfuno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy â gweithredu cadarnhaol arwain at newid. Dywedodd ERS Cymru y canlynol wrthym:

> *"with a combination of changing the electoral system and the positive action we've seen being extended you would see a massive difference."*[12]

**27.** Rhannwyd y farn hon gan Chwarae Teg, a ddywedodd y canlynol wrthym:

> *"with a proportional system, it is far easier to apply positive action measures like quotas…. I think a switch to STV or something like that wouldn't necessarily fix the diversity issues, but it does create a space where we can make better use of positive action measures, which would then support greater diversity."*[13]

**28.** Roedd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru yn cyd-weld â hynny:

> *"in those proportional systems, it's much easier to put in place quotas, and I think quotas could really help us."*[14]

**29.** Derbyniodd cynrychiolwyr llywodraeth leol y manteision y gallai newid i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy eu cynnig i amrywiaeth, gyda'r Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys yn awgrymu'r canlynol:

> *"efallai ei bod hi'n amser i gael rhywbeth strwythurol i newid, fel newid y system bleidleisio. [ ] os ydyn ni'n wir eisiau gweld shifft,*

[10] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 164
[11] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 165
[12] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 143
[13] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 273
[14] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 275

*efallai bod angen inni fod yn ddewrach a gwneud y newidiadau mwy strwythurol yma."*[15]

**30.** Aeth y Cynghorydd Jeffreys ymlaen i ddweud y canlynol:

*"os oes yna wardiau aml-aelod, bod posib sicrhau bob amser bod yna un dyn ac un merch yn cael eu dewis i fod yn ymgeiswyr a ballu. So dwi'n meddwl bod y peth aml-ward yn ei wneud o'n haws i wneud pethau fel yna na jest system first-past-the-post."*[16]

**31.** Roedd y Cynghorydd Lis Burnett yn cytuno:

*"through proportional representation, there is a potential to put those sorts of mechanisms into place, which then would cover all representation."*[17]

**32.** Fodd bynnag, er ei fod yn cydnabod y manteision, dywedodd y Cynghorydd Jeffreys wrthym y:

*"buasai'n rhaid ichi fod yn andros o ddewr i fod yr unig gyngor yng Nghymru i wneud y cam ymlaen i STV.* Mae'n rhaid i fi ddweud, dwi yn gefnogol o'r system yna, ond buasai wedi bod yn llawer gwell gen i fod y wlad i gyd a phob cyngor yn symud i'r system yna. Dwi'n meddwl bod o'n broblem fod cynghorau yn gorfod dewis, a dwi'n meddwl bydd o'n ddryslyd i'r trigolion a ballu."[18]

**33.** Soniodd rhanddeiliaid am fanteision ac anfanteision posibl system gyfrannol megis y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, gan y byddai'n creu wardiau etholiadol mawr gyda sawl aelod ar gyfer pob ward. Tynnodd rhai sylw at y manteision posibl y gallai hyn eu cynnig i ymgeiswyr a chynrychiolwyr etholedig wrth ymgysylltu â phoblogaeth fwy ac ardal ddaearyddol fwy. Dywedodd ERS Cymru wrthym fod cryn dipyn i'w ddysgu o'r Alban lle mai'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yw'r system bresennol a ddefnyddir mewn etholiadau llywodraeth leol. Ychwanegodd ERS Cymru y canlynol:

*"it sounds like it's very rare in Scotland for someone to do the whole patch themselves, so in that sense you're not increasing*

[15] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 25
[16] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 30
[17] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 33
[18] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 27

*the size in the same way as it looks like it is on paper for each individual candidate canvassing."*[19]

**34.** Fodd bynnag, derbyniodd y Cynghorydd Jeffreys y gallai wardiau aml-Aelod mwy beri heriau i ymgeiswyr mewn siroedd gwledig oherwydd y byddai angen iddynt gwmpasu ardaloedd daearyddol mwy. Dywedodd y Cynghorydd Jeffreys nad oedd "golden bullet sy'n mynd i ddatrys hyn" ond y gallai fod yn "rhan o'r ateb".[20]

**35.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod o'r farn bod yr opsiwn i newid i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn gyfle cyffrous iawn i'r cynghorau. Esboniodd y Gweinidog rôl Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

*"ensure that councils have all of the information and advice that they need to have that discussion in the appropriate way, and also to ensure that we do have the proper rules in place should any council decide that this is something that they wanted to pursue."*[21]

**36.** Ychwanegodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y rheolau drafft ar gyfer y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy a bod yr ymatebion wedi bod yn gadarnhaol o'r rheolau i raddau helaeth.[22] Clywsom, hyd yn hyn, nad oedd y Gweinidog wedi cael trafodaethau ag awdurdodau lleol sydd o bosibl yn ystyried newid i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy,[23] gydag un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn ychwanegu y bu ymholiadau anffurfiol ar lefel swyddogol gan gynghorau. Cadarnhaodd y swyddog y bydd rheoliadau, yn dilyn yr ymgynghoriad, yn cael eu gwneud pan fydd slot priodol yn ddiweddarach eleni[24] ac y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau ar y rheoliadau i gefnogi cynghorau yn eu dewisiadau.[25]

## Ein barn ni

**37.** Rydym yn cydnabod manteision posibl systemau etholiadol cyfrannol megis y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, yn enwedig fel ffordd o gynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod na fydd newid y system bleidleisio, ynddo'i hun, o reidrwydd yn arwain at newidiadau

[19] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 162
[20] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 52
[21] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 15
[22] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 16
[23] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 19
[24] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 21
[25] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 26

arwyddocaol i gyfansoddiad Aelodau etholedig. Bydd newid i system gyfrannol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ond yn arwain at fwy o amrywiaeth os yw'r strwythurau o'i chwmpas yn galluogi ac yn cefnogi ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol i sefyll etholiad. Mae hyn yn cynnwys yr angen am arweinyddiaeth gref gan bob plaid wleidyddol i gymryd camau cadarnhaol wrth ddewis ymgeiswyr.

**38.** Rydym yn cefnogi'r egwyddor y dylai awdurdodau lleol unigol ddewis a ddylid defnyddio System y Cyntaf i'r Felin neu'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Er ein bod yn sylweddoli mai dim ond ers cyfnod cymharol fyr y mae'r gallu i newid y system bleidleisio leol wedi bod ar gael, ar hyn o bryd ymddengys nad oes llawer o awydd ymhlith cynghorau i'w newid. Pan fydd cynghorau'n penderfynu newid i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru a chyrff partner fod yn barod i ddarparu cymorth yn ôl yr angen i alluogi etholiadau effeithiol.

**39.** Rydym yn croesawu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar reolau drafft ar gyfer y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy a'r ymrwymiad i lunio canllawiau. Rydym yn gobeithio y bydd y rheoliadau a'r canllawiau yn dod ag eglurder a chymorth i unrhyw gyngor sy'n ystyried newid ei system bleidleisio.

# 2. Arolwg a Data Ymgeiswyr Llywodraeth Leol

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg safonedig o ymgeiswyr aflwyddiannus a chynghorwyr a etholwyd yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys cynghorwyr sir a chynghorwyr tref a chymuned.

**40.** Llenwyd arolwg 2022 gan 1,077 o ymgeiswyr a chynghorwyr, sef cyfradd ymateb 12 y cant. Mae hyn yn cymharu â 18 y cant yn 2017 a 35 y cant yn 2012. Mae'r gyfradd ymateb yn amrywio o 1 y cant i 40 y cant ar draws awdurdodau gwahanol.

**41.** Nododd CLlLC yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod y gyfradd ymateb isel yn her, ac y gall annog cynghorau i gasglu gwybodaeth gynhwysfawr am fonitro cydraddoldebau pan fydd cynghorwyr yn cael eu cynefino ddarparu dealltwriaeth fwy cywir o amrywiaeth ar draws llywodraeth leol.[26]

**42.** Dywedodd CLlLC ei bod yn anodd gwerthuso effaith y newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf 2021 ar amrywiaeth ymgeiswyr pan fo'r sylfaen dystiolaeth yn anghyson.[27]

**43.** Mynegwyd pryderon gan sawl rhanddeiliad ar y gyfradd ymateb isel i arolwg 2022 a'r diffyg data yn fwy cyffredinol i fesur newidiadau mewn cynrychiolaeth. Dywedodd ERS Cymru wrthym fod ganddi bryderon eithaf sylweddol am y nifer sy'n llenwi'r arolwg a'i bod wedi casglu ei data ei hun, ond bod cafeat mawr ynghylch hyn gan ei bod yn gwneud tybiaethau o ran rhywedd pobl.[28]

**44.** Pwysleisiodd ERS Cymru yr anawsterau wrth asesu cynnydd heb allu cael gafael ar ddata cywir a bod diffyg mecanweithiau priodol ar gyfer casglu a chyhoeddi data amrywiaeth ar draws y DU:

[26] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 06 CLlLC
[27] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 59
[28] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 170

*"we're talking today about whether diversity has improved, but how can we ever really measure if it's improved if we don't have the full data set to be able to match?"*[29]

**45.** Lleisiodd Chwarae Teg ei phryder hefyd:

*"there are no robust data sets that provide an accurate picture of the diversity of those standing and those elected to local government in Wales".*[30]

**46.** Tanlinellodd Dr Stefanie Reher hefyd bwysigrwydd casglu data gan ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr er mwyn deall rhwystrau:

*"what's really important as well is to get data on candidates, obviously, and then see where there are potential inequalities and biases in terms of who then gets elected, but also who actually stands for office and gets nominated as a candidate in the first place, right? So, it's really important also to get data on people who stood for nomination, or who considered standing for office and then decided not to because of various barriers. []And I think that's where parties need to be involved also to get data from the start of the process, potentially party member data, to the end of the process to see where the bottlenecks are, and where the points are where potentially certain groups are being left out and aren't progressing into elected office."*[31]

**47.** Fel aelod o'r grŵp rhanddeiliaid sy'n ystyried newidiadau i'r arolwg cyn yr etholiad, nododd ERS Cymru heriau penodol, yn enwedig o ran amseru. Nododd fod newidiadau yn aml yn arwain at oedi wrth ddosbarthu'r arolwg, a'r canlynol:

*"at the moment the requirement for the questions to be on the face of the Act takes a lot of time to actually change those questions, and that leads to delays in the survey going out, and that's why I think the response rate was so low this time."*[32]

**48.** Awgrymodd ERS Cymru y canlynol:

[29] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 173
[30] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 05 Chwarae Teg
[31] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 182
[32] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 171

*"it probably is time now to look at a different way of collecting candidate surveys, probably through a compulsory method."*[33]

**49.** Nododd y gellid gwneud hyn drwy becynnau enwebu a gaiff eu dychwelyd at y swyddog canlyniadau.[34] Roedd WEN Cymru o blaid gwneud yr arolwg yn orfodol, ac awgrymodd ei gysylltu â hyfforddiant cydraddoldeb:

*"I would like to see the survey compulsory, and that linked with mandatory training, and one of the things that WEN Wales said in our response was that you could link having done the training and having done the survey to the first payment that you get as a councillor. So, unless you do that, you do not get your payment, and I think that would be a very strong message to send."*[35]

**50.** Er bod Chwarae Teg yn cytuno bod cyfradd ymateb isel i'r arolwg yn achosi problemau, roedd yn amau i ba raddau y byddai'n ymarferol gwneud yr arolwg yn orfodol.[36] Awgrymodd Chwarae Teg y gellid ystyried ffyrdd eraill o gasglu'r wybodaeth:

*"I think there might be ways of requiring that from councils themselves, perhaps through the returning officer. I think there's a role for political parties to be playing. In theory, there's no reason why political parties couldn't right now be collecting that data voluntarily, publishing that data and setting out what actions they would take to fix any identified issues."*[37]

**51.** Pwysleisiodd Diverse Cymru, pe bai'r arolwg yn orfodol, y byddai angen rhoi sicrwydd i bobl o ran sut y byddai eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio[38] oherwydd y canlynol:

*"some people will be reluctant to give this information because it is deeply personal, unless they have the trust and faith that something is actually going to be done with it."*[39]

[33] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 171
[34] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 171
[35] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 285
[36] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 280
[37] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 281
[38] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 283
[39] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 288

**52.** Yn yr un modd, pwysleisiodd CLILC y pwysigrwydd bod ymgeiswyr yn deall pam y mae'r data'n cael eu casglu a sut y bydd eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio. Dywedodd y Cynghorydd Burnett y canlynol wrthym:

> *"in any system where you're trying to collect data, there has to be an element of trust, and so you won't get effective responses unless people actually understand and believe in what you're trying to achieve with collecting that data. So, I think there has to be an overall commitment to diversity, and, therefore, if people understand that we are collecting this data in order to measure our results going forward, rather than collecting data on you as a candidate."*[40]

**53.** Tynnodd Anabledd Cymru sylw hefyd at bwysigrwydd ymddiriedaeth, gan y bydd rhai pobl o bosibl yn petruso cyn datgan eu hunain fel person anabl rhag ofn y bydd ymateb negyddol:

> *"making sure that this is anonymised, and that candidates feel secure to be able to provide that data, is really important."*[41]

**54.** Cydnabu'r Gweinidog fod y gostyngiad yn y gyfradd ymateb i'r arolwg yn siomedig, a nododd ei bwriad i gyflwyno newidiadau gyda'r bwriad o hwyluso'r broses o adolygu'r arolwg:

> *"I intend to make some changes to the way that the survey operates in future by removing the requirement for the format and the questions to be set out in regulations. So, that means that the survey can be reviewed more easily and changes made more quickly."*[42]

**55.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"I think that, in future, we can make the survey into two parts. So, we can have one national part, those national questions that will help us with diversity, but then, potentially, a local part of the survey as well that can help get local information of importance to the local authority. That, again, might give us a chance to refresh this."*[43]

[40] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 61
[41] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 287
[42] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 55
[43] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 57

**56.** Clywsom gan y Gweinidog, er y gellid ystyried gosod targedau i awdurdodau lleol o ran llenwi'r arolwg, y byddai'n dewis gweithio'n gadarnhaol gyda swyddogion canlyniadau a phleidiau gwleidyddol i annog pobl i lenwi'r arolwg.[44] Awgrymodd y Gweinidog y gallai swyddogion canlyniadau annog ymgeiswyr i lenwi'r arolwg drwy eu cyfarfodydd briffio ymgeiswyr.

**57.** Fodd bynnag, cydnabu'r Gweinidog fod gwella'r gyfradd ymateb yn fater sy'n gofyn rhagor o ystyriaeth:

> *"we should explore why people aren't filling it in and what we can do to make it easier to fill it in, and also let candidates know you don't have to fill in all of the questions."*[45]

## Ein barn ni

**58.** Rydym yn rhannu'r pryderon a leisiwyd gan randdeiliaid a'r Gweinidog ar y gyfradd ymateb isel i arolwg ymgeiswyr llywodraeth leol 2022. Mae'n destun pryder arbennig bod y gyfradd ymateb wedi gostwng yn sylweddol ers yr arolwg cyntaf a gynhaliwyd yn 2012. Mae'r data hyn yn hanfodol er mwyn galluogi dealltwriaeth well o'r graddau y mae awdurdodau lleol yn cynrychioli eu hetholwyr. Nodwn fod y gyfradd ymateb rhwng awdurdodau'n amrywio, yn eithaf arwyddocaol weithiau, ac rydym yn credu bod angen mwy o gysondeb. Credwn y gellid cyflawni hyn drwy godi ymwybyddiaeth o'r arolwg a'i hyrwyddo'n well ar draws yr holl gynghorau.

**59.** Rydym yn deall y gallai rhai ymgeiswyr a chynghorwyr fod yn amharod i rannu rhai manylion personol, a bod angen mwy o wybodaeth am sut y defnyddir y data. Credwn y gallai fod rôl i Swyddogion Canlyniadau wrth hyrwyddo'r arolwg ac esbonio ei ddiben i ymgeiswyr drwy eu cyfarfodydd â hwy.

**60.** Mae'r gyfradd ymateb uchel mewn rhai awdurdodau'n galonogol ac yn dangos ei bod yn bosibl ei chodi. Rydym o'r farn bod hyn yn enghraifft lle y gallai rhannu gwybodaeth a phrofiadau helpu i nodi meysydd o arfer da i'w rhannu ar draws awdurdodau.

**61.** Nodwn y darpariaethau yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a osodwyd gerbron y Senedd yn ddiweddar sy'n ceisio diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer datblygu'r arolwg. Byddai'r ddeddfwriaeth yn dileu'r angen i'r cwestiynau a ffurf yr arolwg gael eu nodi mewn rheoliadau ac, yn lle hynny, roi pwerau i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar gynnwys a ffurf

[44] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 58
[45] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 63

yr arolwg. Yn ogystal â chwestiynau cenedlaethol craidd, byddai awdurdodau lleol yn cael ychwanegu eu cwestiynau eu hunain ynghylch menter leol. Byddwn yn craffu ar y Bil a'i ddarpariaethau'n fanylach dros y misoedd i ddod, gyda ffocws ar ddeall sut y bydd y darpariaethau'n helpu i wella'r ymateb i'r arolwg a chasglu data yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gydag CLlLC i wella'r gyfradd ymateb i'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r arolwg ymhlith ymgeiswyr a chynghorwyr, a rhannu arfer gorau rhwng awdurdodau lleol.

# 3. Camau cadarnhaol i gynyddu amrywiaeth

## Mae rhai o'r farn bod gweithredu cwotâu rhywedd neu restrau byr menywod yn unig yn ffordd o gymryd camau cadarnhaol i gynyddu amrywiaeth ymhlith gwleidyddion etholedig.

**62.** Roedd nifer o dystion yn cefnogi cyflwyno cwotâu fel ffordd o gynyddu amrywiaeth ym maes llywodraeth leol. Nododd Cymdeithas Fawcett fod y cynnydd yng nghyfranogiad menywod ym myd gwleidyddiaeth yn mynd fel malwen mewn côl-tar, a galwodd ar lywodraethau, pleidiau gwleidyddol a chynghorau lleol i weithredu i gynyddu cynrychiolaeth menywod ar gynghorau lleol. Ymhlith ei hargymhellion oedd galwad i bleidiau gwleidyddol wneud y canlynol:

> *"Introduce quotas for increasing women's representation alongside representation of other protected characteristics. If this is not possible then parties must set out targets, alongside clear action plans to achieve them. This should include a review of candidate selection procedures to ensure there are no structural barriers hampering participation of under-represented groups."*[46]

**63.** Nododd WEN Cymru fod cynrychiolaeth menywod yn dal i fod yn hynod ddibynnol ar fenter wirfoddol pleidiau unigol. Mae'n pryderu bod rhai pleidiau gwleidyddol yn amharod i ddefnyddio rhestrau byr menywod yn unig, a bod y data'n dangos bod mentrau gwirfoddol wedi methu cyflawni.[47] Dywedodd WEN Cymru wrthym yr hoffai weld camau cadarnhaol a chryf, megis cwotâu a nododd ei bod yn haws gweithredu cwotâu drwy system bleidleisio y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy.[48] Honnodd WEN Cymru fod cwotâu'n gweithio a bod dros 100 o wledydd ar draws y byd wedi'u defnyddio'n llwyddiannus i gynyddu nifer y menywod yn eu seneddau.[49]

**64.** Fel rhan o'i chytundeb cydweithio â Phlaid Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynigion yn ddiweddar i gynnwys cwotâu rhywedd statudol integredig a

[46] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 02 Cymdeithas Fawcett
[47] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 04 WEN Cymru
[48] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 275
[49] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 294

rhestrau 'am yn ail' gorfodol ar gyfer rhestrau ymgeiswyr y pleidiau ar gyfer etholiad nesaf y Senedd. Croesawodd WEN Cymru y cyhoeddiad, gan nodi'r canlynol:

> *"gender quotas are the… most effective tool for increasing women's representation, and we strongly encourage their consideration at the local government level".*[50]

**65.** Ategwyd hyn gan ERS Cymru, ac mae'n galw ar y Pwyllgor i ystyried a ellid cynnwys cwotâu yn etholiadau lleol Cymru.[51]

**66.** Er eu bod yn lleisio cefnogaeth ar gyfer cyflwyno cwotâu, derbyniodd llawer o dystion eu bod yn arf di-fin a all gefnogi cynnydd yn nifer y menywod sy'n sefyll ar gyfer swydd wleidyddol. Dywedodd ERS Cymru wrthym fod cwotâu'n angenrheidiol weithiau gan nad yw mesurau eraill yn effeithiol.[52] Ategodd Diverse Cymru hyn, gan nodi'r canlynol yn ystod tystiolaeth lafar:

> *"I think quotas are an option, but all that does to me is highlight the fact that what's happening now isn't working, and that something is wrong."*[53]

**67.** Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan eraill megis Chwarae Teg, a ddywedodd y canlynol ynghylch cwotâu:

> *"they are potentially a necessary instrument because we're not making enough progress quickly enough."*[54]

**68.** At hynny, trafodwyd â thystion sut y dylid cymryd camau cadarnhaol i gynyddu nifer y cynrychiolwyr etholedig ac ymgeiswyr o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd ERS Cymru y canlynol wrthym:

> *"parties have a massive role in improving representation of people from a black, Asian or minority ethnic background. Candidate selection is key, and we've seen in Wales examples, particularly with Senedd elections, of parties being really pragmatic in their candidate selection, ensuring that there's an increase in the number of women elected, for example. We*

[50] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 04 WEN Cymru
[51] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 03 ERS Cymru
[52] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 202
[53] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 300
[54] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 302

> *believe that's a really good road map to follow for increasing other areas of representation."*[55]

**69.** Dywedodd Race Council Cymru wrthym fod angen gwaith i edrych ar y canlynol:

> *"how can we use targets for black, Asian and minority ethnic communities to ensure [ ] that there is an agreed target for ethnic minority community members per region. So, I do believe that any system that improves the ability of minoritised groups—people from protected characteristics—coming forward and participating has to be the way forward, because we have to reflect the Wales that we serve and, at the moment, that is not the case for black, Asian and minority ethnic people."*[56]

**70.** Pwysleisiodd Race Council Cymru yr angen am gamau cadarnhaol am y rheswm a ganlyn:

> *"It is clear that leaving political parties on their own to tackle these issues will achieve varying results, and many people just don't care."*[57]

**71.** Cynigiodd Dr Reher farn wahanol am gwotâu, yn seiliedig ar ei chyfweliadau ag ymgeiswyr etholiadau lleol a chenedlaethol ar draws y DU:

> *"Actually, most disabled candidates or interviewees were a bit sceptical about quotas. Now, that's in no way representative at all, I wouldn't claim that, but we did hear a lot of scepticism, and I think that's mainly connected to the fact that disabled people are so stigmatised, and that their competence and ability to do the job is often questioned. There was a sense among some interviewees that they felt that, if they were elected through quotas that that might not necessarily fight the stigma as much as if they were elected outside of quotas."*[58]

**72.** Roedd cydnabyddiaeth gan dystion o'r heriau ynghylch cymryd camau cadarnhaol i gynyddu cynrychiolaeth ymhlith ymgeiswyr annibynnol. Dywedodd ERS Cymru y canlynol wrthym:

---

[55] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 193
[56] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 277
[57] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 297
[58] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 206

> *"there's a real difficulty in actually trying to improve gender representation, at the very least; not including other protected characteristics with them. And I do wonder if almost political parties have to overcompensate in local government elections for that, and that is a real challenge for political parties."*[59]

**73.** Lleisiodd rhai cyfranogwyr grwpiau ffocws gefnogaeth ar gyfer cwotâu rhywedd, ond nid oedd hyn yn unfrydol, gyda safbwyntiau cymysg yn cael eu mynegi:

> *"Rwy'n meddwl mai un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwn helpu i gael cynghorau a Senedd mwy amrywiol yw cael cwotâu rhywedd. Mae cant o wledydd ledled y byd yn defnyddio cwotâu rhywedd ac rwy'n credu'n gryf ynddynt. Mae'r holl wledydd hynny ar y lefel uchaf o ran cynrychiolaeth menywod. . . Rwy'n meddwl y dylai fod gan bob plaid wleidyddol strategaethau amrywiaeth cryf iawn a dylid eu gosod cyn etholiad. Y rheswm rwy'n dweud hyn, a'r rheswm rwy'n sôn am gwotâu yw oherwydd bod rhai pleidiau gwleidyddol yn llawer gwell nag eraill am hyrwyddo menywod a dewis menywod. . ."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy.*
>
> *"Yn bersonol dwi ddim yn meddwl mai cwotâu yw'r ffordd . . . Doeddwn i ddim eisiau bod yn rhyw ymarfer blwch ticio, roeddwn i eisiau bod yno ar sail fy nheilyngdod fy hun a doeddwn i ddim eisiau i neb ddweud mai'r unig reswm gefais i'r swydd yw oherwydd merched ar y rhestrau byr. Nid dyna oeddwn i eisiau ei hyrwyddo. Mae'n rhaid cael y bobl iawn. Allwch chi ddim bod yno dim ond oherwydd eich bod yn fenyw neu oherwydd lliw eich croen. . . Nid yw cael y bobl anghywir mewn swyddi yn gwneud unrhyw ffafrau i neb. Nid ydynt yn portreadu'r delweddau cadarnhaol hynny o'r cymunedau hynny. Felly mae'n bwysig ein bod ni'n cael y bobl iawn ond y prif beth yw annog pobl i sefyll."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Caerdydd.*

**74.** Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y canlynol wrthym ynghylch ei rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth:

[59] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 210

> *"there's an ongoing commitment to consult about gender quotas for local government. So, what we're working towards in this Senedd term is that consultation."*[60]

**75.** Cyfeiriodd y Gweinidog at bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd a'r manteision y gall cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol eu cynnig i unigolion a'u cymunedau:

> *"We've been doing some social media work generally about councillors to highlight the role that councillors play and the good impact that it can have both for the community but also on the life of the person who stands as a councillor."*[61]

**76.** Ychwanegodd y Gweinidog y canlynol:

> *"What we also have to remember and promote is, actually, the incredible amount of good that you can do when you have an elected role. I think we should remind people of that who are interested in politics. It's not all bad. You get to do good in your communities. You get to make decisions based on your own values, and you can make change."*[62]

## Cynnydd gan awdurdodau lleol

**77.** Yn 2021, cytunodd Cyngor CLlLC ar gyfres o fentrau drwy ei raglen *Amrywiaeth mewn Democratiaeth* i hyrwyddo amrywiaeth mewn siambrau cyngor. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi argymhellion Gweithgor CLlLC ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth Leol megis yr ymgyrch 'Byddwch yn Gynghorydd. Sicrhewch mai Chi yw'r Newid' i gefnogi cynghorwyr a hyrwyddo arfer da, ac ymrwymiad i annog pob awdurdod lleol i wneud datganiad i ddod yn 'Gynghorau Amrywiol'. Byddai hyn yn darparu "ymrwymiad cyhoeddus, clir i wella amrywiaeth" yn ôl CLlLC.

**78.** Dywedodd CLlLC na fu asesiad ffurfiol o ran pa mor effeithiol y mae'r newidiadau hynny wedi bod. Fodd bynnag, nododd CLlLC y canlynol:

> *"the work that we do around how we encourage and how we engage with potential councillors, the stall that we set out for potential councillors, is an ongoing process. We haven't conducted a full review of what that looks like yet, but it's*

[60] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 98
[61] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 46
[62] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 69

*something that we'll look to do at some point over the next cycle."*[63]

**79.** Er bod cynnydd cyffredinol o ran cynyddu amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr a etholir yn lleol wedi bod yn gymysg, cyfeiriodd sawl tyst at y cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Bro Morgannwg o ran sicrhau cydraddoldeb yn nifer y cynghorwyr gwrywaidd a benywaidd. Clywsom fod hyn wedi'i sicrhau o ganlyniad i benderfyniadau i gymryd camau cadarnhaol.

**80.** Dywedodd ERS Cymru y canlynol wrthym:

> *"We look at Monmouthshire. In the last elections, that really good commitment that was cross-party, that worked really well. It was technically more of a voluntary quota, I guess, if you want to categorise it, but it worked much more like a legislative gender quota, because everyone was so committed to it, and they have 50:50; they've now gone beyond 50:50. So, you can see how that positive action does make a massive difference, and that is the key."*[64]

**81.** Lleisiodd ERS Cymru ei phryder, er gwaethaf y cynnydd a wnaed:

> *"I don't think there's any guarantee that other council areas will necessarily follow suit. Some may look at their success and think, 'This is a great thing to follow next time around.' There's no guarantee of that. So, I think it does take leadership, but also a formal target or quota might be necessary."*[65]

## Cyngor Sir Fynwy

**82.** Ym mis Mehefin 2021, derbyniodd Cyngor Sir Fynwy, yn unfrydol, gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Richard John, yr arweinydd ar y pryd, i anelu at gydraddoldeb rhwng y rhywiau ymhlith cynrychiolwyr etholedig.[66]

**83.** Cawsom dystiolaeth gan y Cynghorydd John, sydd bellach yn Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr ar Gyngor Sir Fynwy.[67] Esboniodd y Cynghorydd John, ar ôl cael ei benodi'n Arweinydd, ei fod yn teimlo'n benderfynol o geisio gwneud cynnydd a phenodi Dirprwy Arweinydd benywaidd fel rhan o gabinet cyntaf Sir

[63] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 17
[64] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 148
[65] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 202
[66] **Cyngor Sir Fynwy yw'r cyntaf yng Nghymru i ymrwymo i gydraddoldeb rhwng y rhywiau**
[67] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 13, Cynghorydd Richard John

Fynwy sy'n gytbwys rhwng y rhywiau. Yna, cyflwynodd gynnig a gofynnodd i arweinwyr y gwrthbleidiau am eu cefnogaeth. Cydnabu'r Cynghorydd John y canlynol:

> *"gender quotas or any form of positive discrimination were never a realistic option for my party."*

**84.** Nododd y Cynghorydd John, yn hytrach, mai'r dull a fabwysiadwyd ganddo ef a Sara Jones, ei Ddirprwy Arweinydd, oedd mynd ar drywydd darpar ymgeiswyr ar gyfer yr etholiad nesaf a mabwysiadu targed anffurfiol, sef 50 y cant o ymgeiswyr benywaidd. Esboniodd fel a ganlyn:

> *"our roles were focussed on headhunting, mentoring, supporting and advising female candidates to give them the best chance of being selected for a winnable seat."*

**85.** Nododd y Cynghorydd John na chafodd safon yr ymgeiswyr ei haberthu gan y byddai hyn wedi tanseilio'n llwyr y ddadl dros amrywiaeth, a datganodd y canlynol:

> *"Each of my colleagues was selected on merit and I now have a very high calibre team, which is better equipped to undertake our roles because of the diversity of gender, age and background."*

**86.** O'i brofiad ef, daeth y Cynghorydd John i'r casgliad a ganlyn:

> *"quotas, all-women shortlists and other forms of positive discrimination are not the only way to create greater diversity in local democracy."*

**87.** Fodd bynnag, cydnabu'r Cynghorydd John y canlynol:

> *"the pace of change in Wales over the past 25 years has been far too slow. [ ] While I still believe that positive discrimination can be patronising and can undermine politicians' credibility, I would urge those in positions of influence to act with greater urgency."*

## Cyngor Bro Morgannwg

**88.** Cyfeiriodd tystion hefyd at y cydbwysedd rhwng y rhywiau a sicrhawyd gan Gyngor Bro Morgannwg. Dywedodd ERS Cymru y canlynol wrthym:

> *"The Vale of Glamorgan obviously is slightly different. That was down to what we can largely see is positive action within the local Labour Party. So, in the Vale of Glamorgan, Welsh Labour hold 25 of the 54 seats, and 72 per cent of those are held by women, so that has brought the average up, essentially, to 50 per cent."*[68]

**89.** Dywedodd y Cynghorydd Burnett, Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg, y canlynol wrthym:

> *"I have to tip my hat to Monmouthshire, because they are gender balanced right across all their groups. We're gender balanced because some groups have overachieved, so to speak, and we've still got a way to go in terms of all groups within the council."*[69]

## Ein barn ni

**90.** Mae'n siomedig bod cynnydd o ran cynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr llywodraeth leol a chynrychiolwyr etholedig yn parhau i fod yn araf iawn, er gwaethaf cydnabyddiaeth bod angen i hyn newid. Rydym yn cydnabod bod gweithredu mathau o newid cadarnhaol, megis cwotâu neu restrau byr menywod yn unig yn ffyrdd o sicrhau mwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau, ond nid ydynt yn darparu ffordd syml o gynyddu amrywiaeth o grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**91.** Rydym yn cydnabod bod rhai awdurdodau lleol wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth rhyw ac rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd a'u heffaith. Cyfeiriodd tystion at y cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Bro Morgannwg fel enghreifftiau o arfer da ac rydym yn ddiolchgar iddynt am rannu eu profiadau â ni.

**92.** Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth yn y dulliau a fabwysiadwyd yn Sir Fynwy a Bro Morgannwg, yr arweiniodd y ddau at gydraddoldeb rhwng y rhywiau ar draws y cynghorau hynny. Mae'r ddau ddull yn gofyn ymrwymiad ac arweinyddiaeth er mwyn bod yn effeithiol ac rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed.

**93.** Roedd yn galonogol clywed am y mentrau a gynhaliwyd gan CLlLC i hyrwyddo amrywiaeth mewn siambrau cyngor, yn enwedig mewn perthynas â

[68] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 201
[69] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 5

'Datganiadau Amrywiaeth'. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig deall effeithiolrwydd ymgyrchoedd o'r fath, ac y dylid annog pob awdurdod lleol i wneud datganiad os nad yw hynny wedi digwydd eto.

**94.** Rydym yn cytuno bod hyrwyddo ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd a sut y gall pobl sefyll etholiad yn allweddol i gynyddu diddordeb mewn gwleidyddiaeth leol. Er bod gan bleidiau gwleidyddol rôl sylweddol yn y gwaith hwn, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a'r sector llywodraeth leol yn cymryd rhan wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth ar draws cymunedau yng Nghymru. Rydym yn croesawu sylwadau'r Gweinidog am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at rôl cynghorydd a'i hyrwyddo, ac rydym yn gobeithio y caiff hyn ei adlewyrchu mewn strategaethau cyfranogiad cyhoeddus awdurdodau lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, i nodi meysydd o arfer da i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol ac i rannu'r profiadau hynny a dysgu ohonynt.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag CLlLC i asesu effeithiolrwydd yr holl fentrau i gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol, gan gynnwys gweithredu Datganiadau Amrywiaeth a'u heffaith.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu a gwerthuso effaith dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i hyrwyddo cyfranogiad democrataidd. Mae hyn yn cynnwys mesur effaith strategaethau cyfranogiad cyhoeddus awdurdodau lleol a rhannu arfer da.

# 4. Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

Yn ei adroddiad yn 2019, argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yng Nghymru i gynorthwyo unigolion anabl i ymgeisio am swyddi etholedig.

**95.** Yn 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot i ariannu cymorth ac addasiadau rhesymol i ymgeiswyr anabl oedd yn sefyll i'w hethol yn etholiad Senedd Cymru 2021 ac etholiadau lleol 2022.

**96.** Gweinyddwyd y gronfa gan Anabledd Cymru ac roedd yn talu costau fel cymhorthion cynorthwyol, hyfforddiant, teithio, cymorth personol a chymorth cyfathrebu. Dywedodd Anabledd Cymru wrthym fod y gronfa yn ceisio darparu'r canlynol:

> *"financial support for any impairment-related expenses that a disabled candidate would have in their time in candidacy, and provided things such as personal assistance or travel expenses. So, in the last [local elections], there were 18 applicants and 17 awards were given out to them: 13 candidates had support delivered; one candidate was elected uncontested; two candidates rejected the support available; and one candidate was not able to find support in time."*[70]

**97.** Clywsom fod adborth gan ymgeiswyr a gafodd gymorth yn hynod gadarnhaol, gydag Anabledd Cymru yn nodi'r canlynol:

> *"[the candidates] felt significantly more supported during the election, and significantly more able to stand."*[71]

**98.** Rhoddodd CLILC adborth cadarnhaol hefyd gyda'r Cynghorydd Burnett yn cyfeirio at ymgeisydd a oedd, fel defnyddiwr cadair olwyn, wedi defnyddio'r gronfa i dalu am gynorthwyydd i helpu i ddosbarthu taflenni:

[70] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 360
[71] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 360

> *"That was brilliant, because, as a candidate, they were able to participate on an equal basis to all other candidates, and that worked really, really well."*[72]

**99.** Fodd bynnag, amlinellodd Anabledd Cymru feysydd i'w gwella hefyd. Roedd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith ymgeiswyr a sicrhau bod y gronfa ar gael yn gynharach yn y broses. Byddai hyn yn sicrhau bod gan ymgeiswyr ddigon o amser i drefnu'r cymorth sydd ei angen.[73]

**100.** Cytunodd Dr Stefanie Reher ac esboniodd fel a ganlyn, yn seiliedig ar ei hymchwil o'r gronfa EnAble yn Lloegr:

> *"it is really important that that information is spread widely. And here, there might be an issue with independent candidates, or prospective candidates as well, because a lot of information is passed through parties [ ]but we have found that it can be a little bit more difficult to reach independents.*
>
> *Another issue could be the timing of the planning around the fund. So, it's really important to start planning early on, to give people enough time to actually consider standing for office."*[74]

**101.** Cyfeiriodd yr Athro Elizabeth Evans o Goleg Goldsmiths, rifysgol Llundain, at ymchwil a wnaed ganddi hi a Dr Reher drwy gyfweliadau â mwy na 80 o wleidyddion anabl ac actifyddion pleidiau:

> *"nearly all of whom mentioned the importance of having centrally allocated funding schemes to enable disabled people to put themselves forward for elected office. In order for funding schemes to be effective they should be established on a permanent basis and advertised well in advance of elections. It is also important that political parties understand how the funding works and to promote it to their members in order to reach as many people as possible. Similarly, it is important to ensure that disabled people who wish to be elected as Independents are also made aware of the funding schemes."*[75]

[72] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 114
[73] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraffau 360 a 362
[74] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraffau 241-242
[75] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 10 Yr Athro Elizabeth Evans

**102.** Pwysleisiwyd pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r gronfa hefyd gan gyfranogwyr grwpiau ffocws:

> *"Mae yna waith i'w wneud yn y cyngor sir fel bod pobol yn gwybod bod y rhaglenni yma ar gael i bobol eu defnyddio, achos doeddwn i ddim yn gwybod amdanyn nhw."*
>
> *Grŵp ffocws 2, Sir Gaerfyrddin.*
>
> *"Dydw i ddim yn ymwybodol o unrhyw un sydd wedi gwneud cais amdano. Dwi ddim yn gwybod ai anwybodaeth ar fy rhan i yw hyn, ond dwi ddim yn ymwybodol o unrhyw un sydd wedi cael budd o'r gronfa."*
>
> *Grŵp ffocws 2, Conwy.*

**103.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad o beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru ar 11 Gorffennaf 2023. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y gwerthusiad wedi dod i'r casgliad bod y trefniadau a roddwyd ar waith yn cael eu croesawu'n fawr a hefyd yn amlygu gwersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, cyfeiriodd y Gweinidog at y cyfnod o amser y darperir cymorth ac y byddai rhai pobl wedi dewis cael cymorth yn gynharach yn y broses.[76]

**104.** Cydnabu'r Gweinidog hefyd y gellid gwella ymwybyddiaeth o'r gronfa, gan nodi, fel cronfa newydd, nad oedd pobl yn gwybod am ei bodolaeth, ac ychwanegodd ei bod yn bendant bod mwy y gellir ei wneud y tro nesaf.[77]

**105.** Cadarnhaodd y Gweinidog fwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu i sicrhau parhad y gronfa.[78]

## Ehangu'r gronfa

**106.** Argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y dylai Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sefydlu cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yng Nghymru, edrych ar bosibilrwydd ehangu cronfa o'r fath i gefnogi grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mynegwyd cefnogaeth gan randdeiliaid i ehangu'r gronfa yn y modd hwn. Dywedodd ERS Cymru y canlynol wrthym:

> *"we would like to see it expanded as well to serve other under-represented groups and assist towards costs for the specific*

[76] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 30
[77] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 45
[78] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 36

*barriers that each of those groups face. So, including, but not limited to perhaps people from black, Asian and minority ethnic backgrounds, people from the LGBTQ+ community, people who have caring responsibilities, people who are on low incomes."*[79]

**107.** Cytunodd Race Council Cymru:

*"we know that black, Asian and minority ethnic people suffer and live in poverty predominantly, so opening up this access to all would be really, really powerful to enable them to get onto a level playing field."*[80]

**108.** Dywedodd yr Athro Elizabeth Evans:

*"Funding schemes could also be particularly useful for those from low income backgrounds or those with caring responsibilities, given the gendered and racialised nature of income inequality it is also likely that women in particular would benefit from additional funding schemes."*[81]

**109.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid ehangu'r gronfa i gefnogi grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ond roedd yn cydnabod y gallai'r cymorth ymarferol a ddarperir ganddi i bobl anabl fod yn wahanol i'r cymorth sydd ei angen ar grwpiau eraill.[82]

## Ein barn ni

**110.** Rydym yn croesawu treialu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac yn falch bod ymgeiswyr wedi gallu elwa ohoni. Mae'n amlwg bod argaeledd y gronfa yn ddefnyddiol wrth gefnogi ymgeiswyr anabl i gael gafael ar y cymorth ymarferol sydd ei angen i sefyll etholiad. Felly, rydym yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru i ddeddfu i sicrhau bod y gronfa yn parhau i fod ar gael ar gyfer etholiadau'r dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at graffu ar ddarpariaethau'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) sy'n ceisio rhoi'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ar sail statudol.

**111.** Fodd bynnag, nodwn, er gwaethaf yr adborth cadarnhaol, y canfu gwerthusiad y cynllun peilot feysydd lle y gellid gwella'r gronfa, yn enwedig mewn

[79] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 248
[80] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 358
[81] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 10 Yr Athro Elizabeth Evans
[82] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 31

perthynas â'i hamseroldeb a chodi ymwybyddiaeth. Roedd y Gweinidog yn cydnabod hyn ac fe'n calonogwyd gan ei pharodrwydd i adeiladu ar ganfyddiadau'r rhaglen beilot a gwneud newidiadau cyn etholiadau'r dyfodol.

**112.** Yn ein barn ni, dylai gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol wrth baratoi at etholiadau'r dyfodol. Rydym yn sylweddoli na fydd gan bob ymgeisydd ymlyniad wrth bleidiau gwleidyddol ac, er y gallai fod yn fwy heriol codi ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr annibynnol, mae'n hanfodol bod pob ymgeisydd posibl yn ymwybodol o'r gronfa.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i ganfod cyfleoedd i hyrwyddo ymhellach y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig a buddion y gronfa.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o werthuso'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn cael eu hystyried ymhellach, gan sicrhau bod cymorth amserol a digonol i ymgeiswyr anabl cyn etholiadau llywodraeth leol y dyfodol.

**113.** Rydym yn cydymdeimlo â galwadau gan randdeiliaid i ehangu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i gefnogi grwpiau eraill o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Rydym yn cytuno bod angen pecynnau cymorth ychwanegol ar grwpiau eraill i'w galluogi i sefyll etholiad, ond rydym yn cydnabod efallai na fydd y cymorth ariannol a ddarperir at ddibenion caffael cymorth ymarferol yn iawn i bawb. Bydd grwpiau eraill a fyddai'n elwa o gymorth ariannol, fel pobl ar incwm isel neu bobl â chyfrifoldebau gofalu, ond i eraill, byddai cymorth fel mentora ac ymdrin ag aflonyddu a cham-drin yn fwy priodol.

**114.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ystyried ymhellach sut y gellid ehangu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i roi cymorth ymarferol i ystod ehangach o ymgeiswyr. Mae hyn yn cynnwys canfod sut y gellid darparu mathau eraill o becynnau cymorth i grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Nodwn y darpariaethau yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i greu dyletswydd statudol gyffredinol ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Gallai trefniadau fod ar ffurf gwasanaethau neu gymorth ariannol, a cheisio bod yn dryloyw ac yn wleidyddol niwtral. Bydd rhagor o waith craffu ar y darpariaethau'n cael ei wneud yn y misoedd i ddod.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid ehangu neu ddatblygu mentrau megis y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig mewn pryd ar

gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, er mwyn cefnogi ymgeiswyr o grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu ni waeth a fydd y darpariaethau yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn dod yn gyfraith ai peidio.

# 5. Rhannu swydd

Cafodd trefniadau ar gyfer rhannu swydd ymhlith aelodau o weithrediaeth cyngor eu ffurfioli yn Neddf 2021 ac roedd yn galluogi cynnydd yn uchafswm yr aelodau o weithrediaeth lle y rhennir rolau.

**115.** Cytunodd tystion fod manteision gwirioneddol i rannu swydd, o ran y rhai sydd mewn rolau gweithredol, gan annog mwy o gyfleoedd ar gyfer hyn ledled Cymru. Dywedodd Dr Reher y canlynol wrthym:

> *"[It] seems to be one of the things that could really help disabled people get into elected office, especially, of course, people with energy-limiting conditions. But also, disabled people are likely to also be a carer, for instance, for other disabled people."*[83]

**116.** Cytunodd Anabledd Cymru a chyfeirio at sgyrsiau â phobl anabl, pan fynegodd rhai y farn a ganlyn:

> *"if job sharing was widely available or was more commonly talked about, they would feel more comfortable standing or feel more able to."*[84]

**117.** Roedd Diverse Cymru yn rhannu'r farn hon, a chyfeiriodd at fanteision rhannu swyddi i lawer o grwpiau, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, pobl â phlant a phobl anabl.[85]

**118.** Serch hynny, er gwaethaf darpariaethau yn Neddf 2021 i alluogi rhannu swyddi mewn rolau Gweithredol, mynegodd rhanddeiliaid bryder bod hyrwyddo hynny ac ymwybyddiaeth ohono yn isel. Cyfeiriodd cynrychiolydd WEN Cymru at ei phrofiad personol fel aelod gweithredol a oedd yn rhannu rôl:

> *"Although it's been made possible by the Act, it wasn't promoted at all; it was just that I knew about it, having known a councillor in Swansea who did it, that I could propose it when I got my role. So, that's why it was very much coming from the*

[83] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 223
[84] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 344
[85] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 345

*individual. It's not something that I see promoted at local government level.*

*I think also it's really difficult because I don't think people understand enough—other councillors—that only one of you, as a job share, should be at every cabinet meeting. It's supposed to be a job share so you shouldn't both have to go to everything, but, often, you do both have to go to everything."*[86]

**119.** Cytunodd ERS Cymru, gan ddweud y canlynol:

*"I think it needs lots of promotion, because it's definitely not the status quo."*[87]

**120.** Clywsom bryderon hefyd am y diffyg data ar nifer yr aelodau cyngor neu aelodau gweithredol sy'n manteisio ar gyfleoedd i rannu swydd. Nododd Chwarae Teg ei bod yn aneglur i ba raddau y mae rhannu swydd yn digwydd ar draws Cymru, ac nad yw'n hawdd dod o hyd i'r wybodaeth honno. Galwodd am gronfa ddata ganolog i rannu arfer gorau a gwneud y canlynol:

*"further encourage the use of job-share as a way of opening up leadership opportunities in local government".*[88]

**121.** Galwodd ERS Cymru am fwy o gasglu data, gan nodi'r canlynol:

*"It's really hard to get the data [ ] we need to collect this data so that we can make sure that we're learning from it."*[89]

**122.** Dywedodd CLlLC nad oedd yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chasglu am rannu swyddi[90], ond darparodd dystiolaeth ychwanegol a gadarnhaodd fod y canlynol yn berthnasol o fis Gorffennaf 2023:

*"The following authorities are using job shares within the council's executive.*

*- Cardiff Council (2 Shared portfolios; Social Services and Tackling Poverty, Equality and Public Health)*

*- Newport City Council (1 Shared Portfolio; Social Services)*

[86] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraffau 340-341
[87] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 221
[88] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 05 Chwarae Teg
[89] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 219
[90] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 91

*- Swansea Council (1 Shared Portfolio; Community)*

*- Powys (1 Shared Portfolio; Future Generations)*

*- Flintshire (1 Shared Portfolio: Deputy Leader).”*[91]

**123.** Er bod cefnogaeth gyffredinol i ddarpariaethau rhannu swydd, roedd cydnabyddiaeth hefyd bod materion ymarferol yn ymwneud â rhannu swydd i’w goresgyn hefyd. Dywedodd CLILC y canlynol:

> *“some issues have been raised, such as the need to ensure job-sharing members of the executive are aligned when voting within Cabinet.*
>
> *It has also noted that for smaller councils, job sharing can place an increased burden on scrutiny committees, given that members of the executive cannot also be members of scrutiny committees. This has been highlighted as a particular challenge given the enhanced role of scrutiny following the commencement of the Local Government and Elections Act.”*[92]

**124.** Cydnabu’r Gweinidog ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd, gan mai dim ond ers 2021 y mae’r darpariaethau wedi bod ar waith, ond o ran lle roedd rhannu swydd wedi cael ei ddefnyddio, dywedodd y canlynol:

> *“we’ve known that there are people who’ve taken on those executive roles who say that they couldn’t have done it otherwise, which I think is positive.”*[93]

**125.** Ychwanegodd y Gweinidog y canlynol:

> *“It won’t be the case that every local authority will do this. It will happen in certain places, depending on the team that the leader has to choose his or her cabinet from. So, I think it’s a good start, it’s a good tool, and we’ve had positive feedback from those that have used it.”*[94]

**126.** Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys:

[91] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, Papur 6
[92] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, Papur 6
[93] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 101
[94] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 101

> *"guidance for leaders and cabinets around consideration of diversity in terms of cabinet membership and the leadership of the organisation."*[95]

**127.** Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried y canlynol ymhellach:

> *"potentially extend job sharing to non-executive roles, for example committee chairs."*[96]

## Ein barn ni

**128.** Nodwn fod tystion yn cefnogi gallu aelodau gweithredol awdurdodau lleol i rannu rolau rhwng mwy nag un person. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai rhannu rôl weithredol hwyluso cyfleoedd i unigolion ymgymryd â rolau na allai fel arall fod yn agored iddynt. Felly, rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod yr opsiwn hwn ar gael i arweinwyr awdurdodau lleol. Mae'n galonogol bod rhai arweinwyr cynghorau wedi dewis defnyddio rhannu swydd ar gyfer rolau gweithredol ac, er bod y niferoedd yn eithaf isel ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod nad yw'r ddarpariaeth ffurfiol wedi bod ar waith yn hir iawn.

**129.** Clywsom y gallai fod rhai heriau ymarferol i rai awdurdodau lleol lle y defnyddir rhannu swyddi mewn rolau gweithredol. Bydd cynnydd yn nifer aelodau'r cabinet yn lleihau nifer yr aelodau meinciau cefn sydd ar gael i ymgymryd â swyddogaethau craffu, neu ddal rolau anweithredol fel cadeiryddion pwyllgorau. Bydd angen i arweinwyr cynghorau ystyried materion o'r fath wrth iddynt bwyso a mesur y dull sy'n gweddu orau i anghenion y cyngor.

**130.** Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod angen mwy o ymwybyddiaeth o fanteision a heriau posibl rhannu swyddi. Felly, rydym yn croesawu'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, sy'n egluro egwyddorion cyffredinol rhannu swydd ac yn rhoi cyngor ymarferol ar reoli ei weithrediad.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â phartneriaid llywodraeth leol, gydweithio i godi ymwybyddiaeth o rannu swydd a'i hyrwyddo ar gyfer rolau gweithredol.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso mwy o rannu profiadau awdurdodau lleol mewn cysylltiad â rhannu swydd mewn rolau gweithredol er mwyn deall y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth. Dylai hefyd

[95] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 108
[96] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 112

sicrhau bod data rhannu swydd yn cael eu casglu'n well er mwyn gallu monitro effaith rhannu swydd yn rheolaidd wrth gyfrannu at wella amrywiaeth ar draws awdurdodau.

# 6. Gweithio hybrid

Gwnaeth Deddf 2021 alluogi awdurdodau lleol i gynnal cyfarfodydd aml-leoliad, a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru fel diwygiad a allai fod yn bwysig, yn enwedig wrth annog amrywiaeth.

**131.** Disgwyliwyd i weithio o bell fod yn faes datblygu i awdurdodau lleol er mwyn hwyluso mwy o weithio hyblyg. Fodd bynnag, cyflymodd y pandemig gynnydd hyn bron dros nos. Fel y mae CLlLC yn datgan, mae'n debygol na fyddai wedi bod yn bosibl mabwysiadu'r trefniadau mor gyflym heb yr amgylchiadau unigryw ac uniongyrchol a ddeilliodd o'r pandemig.[97]

**132.** Ochr yn ochr â gofynion craidd y trefniadau cyfarfod yn y Ddeddf, caiff awdurdodau lleol hefyd sefydlu trefniadau ehangach ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad. Caiff y rhain gynnwys gweithdrefnau ymarferol ar gyfer sicrhau cyfarfodydd effeithiol ac effeithlon, yn ogystal â sicrhau mesurau atebolrwydd cadarn. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ac anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n cynnwys canllawiau ar gyfarfodydd aml-leoliad.

**133.** Croesawyd gweithio hybrid yn eang gan bob tyst, gan alluogi'r rhai â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, megis cyfrifoldebau gwaith neu ofal, neu gynghorwyr ag anableddau i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd pan na fyddent yn gallu gwneud hynny fel arall. Nododd WEN Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod corffori gweithio o bell yn barhaol yn Neddf 2021 yn gam cadarnhaol arall sy'n rhoi mynediad gwell i fenywod â chyfrifoldebau gofalu a phobl anabl.[98]

**134.** Roedd cynrychiolwyr llywodraeth leol yn gefnogol o'r gallu i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o bell. Dywedodd y Cynghorydd Jeffreys wrthym ei fod yn "ddatblygiad positif"[99] a'i fod:

> *"ddim yn ein gweld ni byth yn mynd ôl, dwi ddim yn meddwl, i fel oeddem ni o'r blaen. Mae cyfarfodydd aml-leoliad, dwi'n gwybod, yn gweithio'n dda iawn yng Ngwynedd. [ ] mae medru*

[97] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 06 CLlLC
[98] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 04 WEN Cymru
[99] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 106

*ymuno'n hybrid o fudd mawr, dwi'n meddwl, mewn sir mor wledig â Gwynedd."*[100]

**135.** Ychwanegodd y Cynghorydd Burnett y canlynol:

*"it's been a huge boost to some of our members who've got disabilities, particularly those with hearing impairment, who find a noisy council chamber quite difficult."*[101]

**136.** Cyfeiriodd y Cynghorydd Burnett hefyd at yr effaith gadarnhaol y mae gweithio hybrid wedi'i chael ar ymddygiad yn ystod cyfarfodydd, gan nodi'r canlynol:

*"it is much easier to call out poor behaviour in multilocation meetings"*[102]

**137.** Ychwanegodd y Cynghorydd Burnett fod yr opsiwn o allu ymuno â chyfarfodydd yn rhithwir wedi bod yn ffactor ym mhenderfyniad rhai ymgeiswyr i sefyll etholiad, yn enwedig pobl â chyfrifoldebau gofalu neu ymrwymiadau gwaith eraill.[103] Lleisiodd Chwarae Teg ei chefnogaeth i gyfarfodydd hybrid, ond pwysleisiodd ei bod yn bwysig gwneud gwaith hybrid yn dda, gan nodi'r canlynol:

*"it can be a great way of opening stuff up, but it's got to be done in a way that is inclusive… you can, kind of, become a bit of a spectator if it's not being run with the right tech and with the right skill sets."*[104]

**138.** Cytunodd Anabledd Cymru fod gweithio hybrid yn hynod bwysig i greu amgylchedd cynhwysol a hygyrch o ran sefyll a bod yn rhan o'ch cyngor lleol, ond cododd bryderon ynghylch dychwelyd i gyfarfodydd yn y cnawd:

*"we've also seen more of a return to in-person meetings, or hybrid meetings being seen more as an afterthought, and we believe that hybrid meetings are something that's extremely important."*[105]

[100] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 104
[101] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 108
[102] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 109
[103] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 109
[104] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 350
[105] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 352

**139.** Nododd Dr Reher hefyd ei phryderon y bu cam yn ôl, yn ôl i'r 'drefn arferol' mewn llawer o leoedd. Nododd fod hyn yn achosi'r canlynol:

> *"a lot of frustration with the tendency to not really see the benefits that [hybrid working] brought for a lot of people who have difficulty getting out of the house".*[106]

**140.** Ychwanegodd Dr Reher y canlynol:

> *"really big demand for thinking about maintaining some of the remote working possibilities and obviously developing that further as well, because it's important as well that that doesn't create any inequality between people who are there in person and those who are there remotely on a more permanent basis."*[107]

**141.** Nododd y sector cynghorau cymuned fod cynghorwyr iau a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu wedi elwa o weithio hybrid. Fodd bynnag, mae rhai cynghorau cymuned gwledig a bach yn cael trafferth gyda seilwaith i gefnogi gweithio hybrid. Dywedodd Un Llais Cymru y canlynol wrthym:

> *"The problem we have in Wales is that there are many small, rural-based councils that don't have many meeting places to choose from—some of them at the back of village halls or church halls—and they find it very difficult to be able to install the equipment needed to have hybrid meetings… the cost is disproportionate to the size of the precept in many of these councils… Many of the smaller councils are saying, 'Look, if Welsh Government want us to do this, is there some way that we can have some grants to help us with the costs involved?'"*[108]

**142.** Fodd bynnag, croesawodd Un Llais Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swyddog cymorth digidol ar gyfer y sector:

> *"part of their role will be to provide cost-effective guidance as to how multilocations can be set up properly."*[109]

**143.** Cydnabu'r Gweinidog yr heriau y mae rhai cynghorau tref a chymuned yn eu hwynebu wrth weithredu cyfarfodydd aml-leoliad a chyfeiriodd at waith a wnaed

[106] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 235
[107] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 235
[108] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 101
[109] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 101

gan swyddfa prif swyddog digidol llywodraeth leol ar gyflwr digidol y sector hwnnw. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi darparu £150,000 i gyflawni'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd o ganlyniad i'r gwaith hwnnw. Ychwanegodd y Gweinidog y canlynol:

> *"we have provided some funding and we've done the work through the digital officer's office to understand the challenges in the sector, so we are aware of them and trying to support the sector now to develop."*[110]

## Ein barn ni

**144.** Nodwn fod rhanddeiliaid yn cefnogi'r darpariaethau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, gan alluogi cynghorwyr i gymryd rhan naill ai'n rhithwir neu yn y cnawd. Mae'n amlwg bod y gallu i gymryd rhan yn rhithwir o fudd mawr i gynghorwyr ac yn ffactor pwysig i rai darpar ymgeiswyr wrth ystyried sefyll etholiad. Rydym yn cefnogi parhad y ddarpariaeth hon fel modd o rymuso cynrychiolwyr etholedig i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ochr yn ochr ag ymrwymiadau eraill. Mae'r gallu i gymryd rhan o bell mewn cyfarfodydd yn arf sylweddol o ran denu ystod ehangach o ymgeiswyr i sefyll etholiad ac, er ei fod wedi'i nodi fel budd pendant i grwpiau penodol, megis pobl anabl neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gwaith neu ofalu, mae cyffredinolrwydd y ddarpariaeth yn golygu y gall pawb elwa.

**145.** Er gwaethaf y llwyddiannau clir, clywsom ei bod yn bwysig sicrhau bod cyfarfodydd hybrid yn cael eu cynnal yn gywir, er mwyn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn gallu dilyn y trafodion a chymryd rhan ynddynt. Dylai'r rhai sy'n cadeirio cyfarfodydd hybrid sicrhau bod cyfranogwyr rhithiol yn cael yr un cyfle i gyfrannu â'r rhai sy'n bresennol yn yr ystafell.

**146.** Er ein bod yn cefnogi'r gallu i gynnal cyfarfodydd aml-leoliad, rydym hefyd yn credu y dylai cyfranogwyr barhau i gael yr opsiwn o gymryd rhan yn y cnawd, os mai dyna'u dewis. Fodd bynnag, ni ddylai'r gallu i gymryd rhan yn rhithwir ddisodli gofynion ar awdurdodau lleol i sicrhau bod eu hadeiladau'n gwbl hygyrch i bawb.

**147.** Rydym yn cydnabod yr heriau a wynebir gan rai cynghorau tref a chymuned nad oes ganddynt y seilwaith i gynnal cyfarfodydd aml-leoliad yn effeithiol, ac yn cydnabod y gall y pwysau ariannol o uwchraddio cyfleusterau fod yn feichus i'r rhai sy'n derbyn preseptau is. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynorthwyo'r sector, gan gynnwys yr arian y trefnwyd ei fod ar gael drwy Un Llais Cymru. Serch hynny, er mwyn i amrywiaeth ymgeiswyr a chynghorwyr ar draws y

[110] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 118

sector cynghorau tref a chymuned wella, rhaid i'r gwaith o hwyluso cyfarfodydd aml-leoliad fod yn rhan o hynny.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r sector cynghorau tref a chymuned i sicrhau bod cymorth, hyfforddiant ac adnoddau digonol ar gael i alluogi defnyddio technoleg cyfarfod aml-leoliad ym mhob cyngor cymuned yng Nghymru.

# 7. Mentora, hyfforddiant a'r cyfryngau cymdeithasol

Mae nifer o gynlluniau a mentrau i annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gyda chyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i arwain mewn bywyd cyhoeddus.

## Cynlluniau mentora a hyfforddiant

**148.** Yn ei adroddiad yn 2019, clywodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau dystiolaeth ar wahanol gynlluniau i gynnig cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder gyda'r nod o annog eu cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus. Wrth nodi pwysigrwydd cynlluniau o'r fath, cydnabu'r Pwyllgor fod peth o'r dystiolaeth a glywodd yn amau eu heffeithiolrwydd wrth hyrwyddo amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr llywodraeth leol.

**149.** Nododd Llywodraeth Cymru fod y gwerthusiad o'i Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn 2019, a gynhaliwyd rhwng 2014 a 2017, yn tynnu sylw at y:

> *"diffyg dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd am swyddogaeth cynghorwyr a'r cyfraniad pwysig y maent yn ei wneud ar ran cymunedau."*

**150.** Ychwanegodd Llywodraeth Cymru ei bod, ers hynny, wedi cynnal amryw o adolygiadau tystiolaeth ac ymchwil, gyda'u canlyniadau'n:

> *"llywio camau nesaf ein agenda i gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol."*[111]

**151.** Clywsom am gynlluniau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau unigol. Dywedodd WEN Cymru wrthym am y rhaglen Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal, y mae'n ei darparu mewn partneriaeth â Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) Cymru.

[111] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, Papur 1

**152.** Caiff y rhaglen ei chyflwyno drwy dri phrif linyn: mentora personol un i un, sesiynau a gweithdai hyfforddi a chefnogaeth rhwng cymheiriaid.[112] Clywsom fod naw o bobl a safodd yn etholiad 2022 wedi cael eu mentora, ac etholwyd pump ohonynt, gydag Anabledd Cymru yn ychwanegu'r canlynol:

> *"four of the people who got elected were also disabled people, and we're seeing some really great feedback from the mentees within Equal Power Equal Voice."*[113]

**153.** Dywedodd WEN Cymru y canlynol:

> *"To attract and support candidates from diverse backgrounds, it is essential to expand and adequately resource schemes for mentoring, coaching & shadowing, both in the third sector and within political parties."*[114]

**154.** Dywedodd ERS Cymru wrthym ei bod yn gefnogol iawn i gynlluniau mentora, ond galwodd am fwy o ddata o ran deall effaith cynlluniau mentora ar y niferoedd a safodd i gael eu hethol ac o ran cynyddu cynrychiolaeth.[115]

**155.** Cydnabu'r Gweinidog y gall cynlluniau mentora gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol, gan ychwanegu bod y gwahanol gynlluniau sy'n canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig gwahanol yn eithaf llwyddiannus o ran cefnogi pobl.[116]

## Ein barn ni

**156.** Credwn fod cynlluniau mentora yn darparu cyfleoedd i bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fagu hyder, cael hyfforddiant a chysylltu â modelau rôl. Rydym yn sylweddoli na fydd pob un sy'n cael ei fentora yn dymuno sefyll mewn etholiad, ond bydd cynlluniau o'r fath yn helpu i hysbysu, cefnogi a, gobeithio, ysbrydoli llawer i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

**157.** Mae'n gadarnhaol bod naw o rai a gafodd eu mentora fel rhan o'r rhaglen Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal wedi sefyll mewn etholiad, ac yr etholwyd pump ohonynt. Roedd hefyd yn galonogol clywed bod pedwar yn ymgeiswyr anabl, sy'n dangos budd posibl cynlluniau o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod

[112] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 04 WEN Cymru
[113] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 373
[114] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 04 WEN Cymru
[115] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 254
[116] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, paragraff 125

effaith cynlluniau o'r fath wedi'i chyfyngu gan y capasiti i gefnogi'r rhai a gaiff eu mentora, a lefel y cyllid sydd ar gael. Serch hynny, byddem yn annog sefydliadau i gydweithio, fel gyda'r rhaglen Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal, er mwyn galluogi mwy o amrywiaeth yn ein sefydliadau gwleidyddol ar gyfer y dyfodol.

**158.** Er ei bod yn galonogol yr etholwyd pump o bobl a gafodd eu mentora, credwn y dylai cynlluniau mentora hefyd fod â rhan wrth gefnogi ymgeiswyr aflwyddiannus. Rydym yn deall y gall peidio ag ennill etholiad ddigalonni rhywun, felly mae cefnogi ymgeiswyr aflwyddiannus yn hanfodol fel nad ydynt yn colli hyder ac er mwyn eu hannog i sefyll eto.

**159.** Rydym yn cydnabod cyfraniad sylweddol Chwarae Teg dros lawer o flynyddoedd wrth ddatblygu a chynnal cynlluniau mentora a hyfforddi, ac fel Pwyllgor cawsom ein tristáu o glywed am gau'r elusen. Diolchwn iddi am ei gwaith pwysig yn y maes hwn ac rydym yn pryderu am yr effaith y mae hyn yn debygol o'i chael ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau yn y dyfodol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru nawr asesu'r capasiti ar draws sectorau i gyflwyno cynlluniau mentora a chymryd camau i sicrhau bod bylchau sy'n deillio o gau Chwarae Teg yn cael eu llenwi'n gyflym.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn sgil cau Chwarae Teg, asesu'r capasiti ledled Cymru i gyflwyno cynlluniau mentora a chanfod yn gyflym sut y gellir llenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

## Cam-drin ac aflonyddu ar-lein

**160.** Clywsom fod cam-drin ac aflonyddu ar-lein yn parhau i rwystro menywod rhag cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid a chynghorwyr yn ystod y grwpiau ffocws fod hyn yn fater parhaus. Dywedodd cyfranwyr grwpiau ffocws mai:

> *"Un o'r pethau sy'n rhwystr penodol i fenywod yn fy marn i yw cam-drin ar-lein ac rydych chi'n gwybod os ydych chi'n rhoi eich hun i fyny ar gyfer y rôl hon neu unrhyw rôl, rydych chi'n agor eich hun i negeseuon negyddol iawn ar Twitter ar y gorau ac, ar y gwaethaf, bygythiadau [y]n erbyn eu bywydau. Rwy'n credu, nes yr ymdrinnir â'r mater hwn, fe fyddwch chi'n dal i gael pobl yn cwestiynu, meddwl yn galed iawn, menywod yn arbennig, ac mae'n waeth i fenywod anabl a menywod o liw. A chi'n mynd i gael eich teulu yn eich cwestiynu - wyt ti'n siŵr dy fod eisiau gwneud hyn? Mae hynny'n rhwystr sylweddol nad ydw i'n meddwl bod neb wedi llwyddo i'w ymdrin ag ef eto."*

*Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy.*

*"Mae'n debyg bod y risg o gael eich trolio ar y cyfryngau cymdeithasol yn troi pobl i ffwrdd ond rwy'n ofni fy mod yn meddwl ei fod yn rhywbeth sydd bob amser yn mynd i ddigwydd, ac fe fydd yn digwydd cyn belled â bod y cyfryngau cymdeithasol ar gael y gall pobl eu defnyddio."*

*Grŵp ffocws 2, Conwy*

**161.** Dywedodd Chwarae Teg fod cam-drin ar-lein yn rhwystr penodol i fenywod anabl a menywod o gefndir lleiafrifoedd ethnig a galwodd am ffyrdd mwy arloesol a gweithredol o warchod ymgeiswyr rhag y lefelau camdriniaeth a ddaw drwy'r cyfryngau cymdeithasol.[117] Galwodd Chwarae Teg i lwyfannau ar-lein gymryd mwy o gyfrifoldeb o ran mynd i'r afael â chamdriniaeth ond ychwanegodd y canlynol hefyd:

*"there is a role for political parties to be playing around the code of conduct that's expected of Members and of elected representatives."*[118]

**162.** Nododd CLlLC ei bod wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid Llywodraeth Leol ar draws y DU ar Civility in Public Life. Rhaglen gydgysylltiedig i gefnogi cynrychiolwyr lleol ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â bygwth a cham-drin, a gwella trafodaeth wleidyddol. Mae wedi cydgynhyrchu llawlyfr i helpu cynghorwyr i fynd i'r afael â cham-drin ac aflonyddu ar-lein ynghyd â modiwlau e-ddysgu megis ymwybyddiaeth o'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nododd CLlLC y canlynol:

*"the efficacy of this campaign remains unclear, and candidates would benefit from clearer practical guidance."*[119]

**163.** Yn ei bapur, nododd y Gweinidog fwriad Llywodraeth Cymru i:

*"ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd i archwilio beth arall y gallem ei wneud gyda'n gilydd i fynd i'r afael â cham-drin mewn gwleidyddiaeth, oherwydd mae hyn yn gofyn am ddull system gyfan sy'n adeiladu ar syniadau presennol wrth ddatblygu dulliau gweithredu newydd. Mae angen i ni i gyd*

[117] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 05 Chwarae Teg
[118] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, paragraff 385
[119] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, DLG 06 CLlLC

*godi llais y[n] erbyn bwlio ac aflonyddu, nad oes lle iddynt mewn cymdeithas nac mewn siambrau cyngor."*

**164.** Ychwanegodd y Gweinidog y bydd rhan o waith Llywodraeth Cymru yn:

> *"ceisio arfogi unigolion â'r sgiliau a'r gefnogaeth i reoli sefyllfaoedd anodd os byddant yn codi. Bydd hyn yn cynnwys ystyried hyfforddiant cadernid, canllawiau gweithio ar eich pen eich hun a rheoli perthnasoedd digidol."*[120]

## Ein barn ni

**165.** Mae'n destun pryder mawr bod cam-drin ac aflonyddu ar-lein yn amlwg yn dal i fod yn rhwystr sylweddol i lawer rhag rhoi eu henwau gerbron mewn etholiad. Roeddem yn falch o glywed am ragor o gymorth ac arweiniad i gynghorwyr ar fynd i'r afael â cham-drin ac aflonyddu ar-lein, yn ogystal â modiwlau e-ddysgu fel ymwybyddiaeth o'r cyfryngau cymdeithasol. Nid ydym yn glir a yw cymorth ac arweiniad o'r fath yn cael eu darparu i ymgeiswyr yn ogystal ag i gynghorwyr etholedig.

**166.** Rydym yn croesawu mentrau fel yr Addewid Ymgyrch Deg, a geisiodd sicrhau bod pob cynghorydd ac ymgeisydd yn ymrwymo i ymgyrch etholiadol deg a pharchus. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa effaith a gaiff mentrau o'r fath, ac i ba raddau y caiff hyn ei monitro ar lawr gwlad. Mae terfyn hefyd ar fentrau o'r fath, gyda chyfrifoldeb ar bleidiau gwleidyddol, arweinwyr gwleidyddol, ymgeiswyr unigol a chynghorwyr sy'n sefyll etholiad i sicrhau'r lefel uchaf o ymddygiad ar-lein, boed hynny yn ystod ymgyrchu neu fel arall.

**167.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddwyn partneriaid allweddol ynghyd i frwydro yn erbyn camdriniaeth mewn gwleidyddiaeth a gofynnwn ein bod yn cael ein hysbysu o ganlyniad y gwaith hwnnw.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar ganlyniad ei gwaith i ddwyn partneriaid allweddol ynghyd i frwydro yn erbyn camdriniaeth mewn gwleidyddiaeth.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gymryd camau pendant a chadarn i fynd i'r afael â cham-drin ar y cyfryngau cymdeithasol.

[120] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Gorffennaf 2023, Papur 1

# Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **15 Mehefin 2023** | **Y Cynghorydd Lis Burnett, Arweinydd,**<br>Cyngor Bro Morgannwg<br>**Y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys, Dirprwy Arweinydd,**<br>Cyngor Gwynedd<br>**Joseph Lewis, Swyddog Gwella,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Paul Egan, Dirprwy Brif Swyddog**,<br>Un Llais Cymru<br>**Jess Blair, Cyfarwyddwr,**<br>ERS Cymru<br>**Dr Nia Thomas, Swyddog Ymchwil ac Ymgyrchoedd,**<br>ERS Cymru<br>**Dr Stefanie Reher,**<br>Prifysgol Ystrad Clud<br>**Catherine Fookes, Cyfarwyddwr**,<br>Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru<br>**Natasha Davies, Pennaeth Polisi, Materion Cyhoeddus ac Ymchwil**,<br>Chwarae Teg<br>**Chris Dunn, Prif Swyddog Gweithredol**,<br>Diverse Cymru<br>**Yr Athro Uzo Iwobi, Sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol,**<br>Race Council Cymru<br>**Megan Thomas, Swyddog Polisi ac Ymchwil,**<br>Anabledd Cymru |
| **13 Gorffennaf 2023** | **Rebecca Evans AS,**<br>Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>**Elaina Chamberlain, Pennaeth Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol**,<br>Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | **Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Polisi Llywodraeth Leol**<br>Llywodraeth Cymru |

# Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **DLG 01** | Jayne Garland |
| **DLG 02** | Cymdeithas Fawcett |
| **DLG 03** | ERS Cymru |
| **DLG 04** | Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru |
| **DLG 05** | Chwarae Teg |
| **DLG 06** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **DLG 07** | Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr |
| **DLG 08** | Race Council Cymru |
| **DLG 09** | Comisiwn Etholiadol Cymru |
| **DLG 10** | Yr Athro Elizabeth Evans, Coleg Goldsmiths, Prifysgol Llundain |
| **DLG 11** | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| **DLG 12** | Stonewall Cymru |
| **DLG 13** | Y Cynghorydd Richard John, Cyngor Sir Fynwy |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 13 Gorffennaf 2023 |